**Gwybodaeth i Rieni Plant sydd wedi cael Myringotomi gyda/heb Gromedau**
**Uned Enfys**
**(Plant a Phobl Ifanc)**

Mae eich plentyn wedi cael myringotomi (ar gyfer un glust) neu fyringotomïau dwyochrog (ar gyfer y ddwy glust).

**Beth yw myringotomi?**
Mae’r llawdriniaeth fel arfer yn cael ei pherfformio i ddraenio hylif sydd wedi casglu y tu ôl i ddrwm y glust.

Yn ystod y llawdriniaeth caiff hollt fechan ei gwneud ym meinwe’r drwm i ryddhau’r hylif. Os oes hylif yn bresennol, gallai tiwb awyru bach (gromed) gael ei osod. Mae’r tiwb yn fach iawn, ond mae’n gadael i aer fynd i mewn i’r glust ganol. Dylai eich plentyn wedyn allu clywed yn gliriach.

**Pa ôl-ofal sydd ei angen ar fy mhlentyn?**
Rhaid i chi gadw’r clustiau'n sych ac osgoi dŵr sebonllyd oherwydd gall fod yn llidus i’r glust/clustiau. Rhowch ddarn o wlân cotwm wedi’i orchuddio â faselin yng nghlust(iau) eich plentyn pan fydd angen cawod/bath arno neu pan fydd yn golchi ei wallt.

Os yw clust(iau) eich plentyn wedi'i draenio HEB gromedau, dilynwch y cyngor hwn am bythefnos. Os oes gromedau wedi’u gosod, dilynwch y cyngor tan i’ch plentyn ddychwelyd am apwyntiad dilynol yn y clinig cleifion allanol.

Bydd y meddyg yn gwirio a yw’r gromed yn ei le o hyd ac yn gweithio’n iawn. Bydd eich plentyn hefyd yn cael prawf clyw (awdiogram) i brofi ei fod yn dal i allu clywed yn iawn.

**A all fy mhlentyn fynd i nofio?**
Os oes gromedau wedi’u gosod, **ni ddylai** eich plentyn fynd i nofio oni bai ei fod wedi cael ei weld yn y clinig dilynol. Os nad oes gromedau wedi’u gosod ar gyfer eich plentyn, **gall fynd i nofio ar ôl pythefnos**.

**Pryd gall fy mhlentyn fynd yn ôl i’r ysgol?**
Gall eich plentyn fynd yn ôl i'r ysgol pan fydd yn teimlo'n ddigon da i wneud hynny.

**“Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/**
**This document is available in English”.**